Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.05.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# AROLWG: Arolwg Busnes Gwynedd – diolch, rydych chi'n anhygoel!

Diolch yn ddiffuant i'r dros 300 ohonoch sydd wedi bod yn ddigon caredig i lenwi Arolwg Busnes Gwynedd! Rydym eisoes yn dadansoddi'r canlyniadau, ond hoffem gael ychydig mwy o ymatebion gan fusnesau sydd wedi'u lleoli yn Llŷn ac Eifionydd, a hefyd gan fusnesau amaethyddol, adeiladu neu ynni, i sicrhau ein bod yn gwybod beth mae busnesau ym mhob rhan o Wynedd, ac o bob sector, yn ei deimlo, ynghyd â'r math o help bydd angen iddynt ffynnu!

Os ydych wedi'ch lleoli yn Llŷn neu Eifionydd, neu'n gweithio ym maes ffermio, adeiladu neu ynni, byddem yn ddiolchgar iawn pe

gallech sbario ychydig funudau – cyn dydd Mercher, 18 Mai 2022 – i gwblhau'r arolwg. Ewch i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/surveyGwyneddbusnes

# DIGWYDDIAD: Gŵyl Fwyd Caernarfon 14 Mai 2022 #PrynuLleol #CefnogiLleol

Dymuniadau gorau i'n holl fusnesau lleol fydd yn mynychu Gŵyl Fwyd Caernarfon yfory (14 Mai 2022) – cofiwch rannu negeseuon a chynnwys efo ymgyrch Prynu'n Lleol Gwynedd ar:

- Facebook
  https://www.facebook.com/prynulleol

- Twitter
  https://twitter.com/prynulleol

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleol/

# AROLWG: Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi lansio Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth sy'n galw ar gyflogwyr i rannu eu profiad presennol, gan gynnwys eu barn ar anghenion sgiliau at y dyfodol. Nod yr ymchwil yw i gael gwell dealltwriaeth o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau ar draws Gogledd Cymru o ran sgiliau a chyflogaeth er mwyn datblygu eu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth nesaf 2022-25. Bydd yr arolwg yn cau ar 31 Mai 2022, i gymryd rhan, ewch i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/2ZVHFVJ

# NEWYDDION: Cwmni teledu o Gaernarfon yn arwain cynhyrchiad ar y cyd byd-eang gwerth £650,000

Mae Cwmni Da, cwmni teledu yng Nghaernarfon, wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar, yn arwain consortiwm rhyngwladol i wneud cyfres tair rhan sy'n edrych yn fanwl ar sut mae glaw wedi effeithio ar ddynoliaeth – Rain: The Untold Story – a ddewiswyd eisoes gan gylchgrawn y diwydiant Broadcast fel un o'r 10 dewis gorau i'w wylio yn 2022. I ddysgu mwy, ewch i:

https://businessnewswales.com/north-wales-tv-company-leads-650000-global-co-production/

## NEWYDDION: Newyddion Ymgysylltu â Busnesau Prifysgol Bangor – Rhifyn y Gwanwyn

Mae rhifyn y Gwanwyn o Newyddion Ymgysylltu â Busnesau Prifysgol Bangor ar gael, gydag eitemau am y fenter newydd Help i Dyfu ar gyfer busnesau bach a chanolig, dathlu llwyddiannau busnes ac i wybod mwy am rwydwaith newydd Labordai Doethineb. Ewch i:

https://sway.office.com/3Cm4Y5Sh7WsiBCDv?ref=Link

## GWOBRAU: Gwobrau Bwyd a Diod Cymru 2022

Rydym yn dymuno'n dda i'r cwmnïau hynny o Wynedd sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Bwyd a Diod Cymru a gynhelir yng Nghaerdydd heno, 13 Mai 2022 – Menai Seafood Co., Glaslyn, Coffi Dre, Distyllfa Whisgi Aber Falls, Hufenfa De Arfon a Daffodil Foods. Mae mwy o wybodaeth ar:

https://foodanddrinkawards.wales/

## CYFLE: Sesiynau Arbenigol Busnes Cymru: Cynadleddau Cadwyni Cyflenwi

Mae'r Cynadleddau Cadwyni Cyflenwi Busnes Cymru yn bedair sesiwn ar-lein fydd yn archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael i BBaCh Cymreig yn cyflenwi'r sector preifat a phrynwyr mawr o'r byd

diwydiant, megis y sector adeiladu a'r GIG. Bydd rhain ar gael i'w gwylio o 17 Mai 2022 ar:

https://businesswales.gov.wales/cy/sesiynau-arbenigol-busnes-cymru-cynadleddau-cadwyni-cyflenwi

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru